



Digwyddiad Cwrdd â'r Prynwr: Cytundeb Gofal yn y Cartref Gogledd Cymru

Mae sefydlu Cytundeb Gofal yn y Cartref Gogledd Cymru yn gyfuniad o waith ymchwil, ymgysylltu a chynllunio dros dair mlynedd:

Ein Nod yw gweithio gyda Darparwyr i greu clwstwr o becynnau gofal (gan leihau amser teithio) a chynig rhyw raddfa o sicrwydd busnes, gan alluogi Darparwyr i fuddsoddi yn eu gweithlu

Ein Gweledigaeth yw fod darparwyr gofal yn y cartref yn rhan o dimau aml-ddisgyblaethol cymunedol, gan weithio *mewn* cymunedau *gyda* chymunedau; cyfrannu at asesiadau a chynllunio gofal, cefnogi galluogi, cyfrannu at leihau'r ddibyniaeth ar ofal a chefnogaeth wedi'i reoli ble bynnag y bo modd.

Am fwy o wybodaeth neu gopi o'r cyflwyniadau, cysylltwch â [John L Williams](#)

Buasem yn hynod ddiolchgar pe byddai modd i chi ymateb i'n harolwg byr ynghylch y tendr; mae hwn hefyd yn gyfle i ymateb i'r wybodaeth yr ydych wedi'i derbyn a chodi unrhyw gwestiwn y gallwn ymateb iddo yn y dogfennau Cwestiynau a Ofynnir yn Aml fel atodiad i'r tendr sydd ar y gorwel: www.gwynedd.llyw.cymru/adborth / www.gwynedd.llyw.cymru/feedback (**Gwynedd sy'n llwyfannu'r arolwg hwn ond mae'n berthnasol i'r rhanbarth cyfan**)

Rydym yn cynllunio Digwyddiad Cwrdd â'r Prynwr arall i gyd-fynd â chyhoeddiad y tendr ac felly gofynnwn i chi nodi 22 Medi yn eich dyddiaduron (gall y dyddiad hwn newid)

Mae Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a'r fframwaith deilliannau llesiant cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru yn gofyn i ni ganolbwyntio llai ar beth sy'n bod ar bobl a chanolbwyntio mwy ar beth sy'n bwysig iddynt; rhoi ystyriaeth i'r hyn sy'n bwysig i bobl ac ar gyfer pobl - gan gynnwys perthnasau cymdeithasol a chymunedol.

Mae'r Comisiynwyr (Awdurdodau Lleol a'r Bwrdd Iechyd) wedi cyrraedd camau gwahanol yn y gwaith o drawsffurfio'u gwasanaethau yn unol â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Yn ystod oes y cytundeb hwn, bydd comisiynwyr Gogledd Cymru'n gweithio â darparwyr cymeradwy i symud tuag at gynllunio a chyflwyno gofal a chefnogaeth sy'n seiliedig ar ddeilliannau. Felly, rydym yn chwilio am ddarparwyr fel partneriaid sydd wedi ymrwymo i arloesi a chydweithio i gyflawni ein dyhead...yn y dyfodol rydym eisiau i'r bobl sy'n derbyn gofal a chefnogaeth fedru dweud eu bod yn medru *cynllunio eu gofal gyda'r bobl broffesiynol sy'n cydweithio i ddeall eu hanghenion ac anghenion cefnogaeth eu Gofalwyr, sy'n rhoi llais a rheolaeth iddynt ac sy'n dod ag amrediad o drefniadau gofal a chefnogaeth ynghyd er mwyn eu cynorthwyo i wneud y mwyaf o'u deilliannau llesiant unigol.*

Byddwn yn defnyddio'r hyblygrwydd a ganiateir o fewn rheoliadau contractau cyhoeddus i ddiffinio proses gaffael fydd, yn ein barn ni, yn ein cynorthwyo i gyflawni ein dyheadau ar gyfer y gwasanaethau a gyflwynir yn y dyfodol. Byddwn:

- yn defnyddio un holiadur ansawdd a phrisio ar draws y rhanbarth; gan arwain at restr o ddarparwyr cymeradwy o ansawdd, gydag asesiad o werth am arian (ansawdd/pwysau pris - gan gynnwys gwerth cymdeithasol)
- Yn rhagweld y bydd y rhestr yn ddeinamig ac yn cael ei agor o leiaf unwaith y flwyddyn, gyda chomisiynwyr yn defnyddio cytundeb galw-ffwrdd ar gyfer trefniadau gwasanaeth unigol a 'bloc' - gyda 'bloc' yn cyfeirio at unrhyw beth yn amrywio o drefniant byw â chefnogaeth bychan i gytundeb 'patch neu ardal' ar raddfa fawr.
- Hefyd yn bwriadu cyflwyno'r dull hwn ar gyfer y 'gwasanaethau gofal yn y cartref estynedig' sydd newydd gael eu diffinio, a bydd gan rhain ofynion gweithlu a sefydliadol ychwanegol.

Rydym yn **rhagweld** y bydd ein hamserlen ar gyfer y project tri cham hwn fel a ganlyn (gall hwn newid):

- Tendr gofal yn y cartref safonol o fis Awst i Hydref 2017, a'r cytundeb yn cael ei ddyrannu yn gynnar yn 2018 ac i gychwyn o fis Ebrill 2018
- Tendr gofal yn y cartref estynedig o fis Ionawr i Mawrth 2018, a'r cytundeb yn cael ei ddyrannu a'i gychwyn yn ystod yr haf 2018
- Tendr Byw â Chefnogaeth o fis Medi - Tachwedd 2018, gyda'r cytundeb yn cael ei ddyrannu a'i gychwyn yn gynnar yn yr haf 2019